



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Scottish Government  
Riaghaltas na h-Alba  
gov.scot

## Rheolaethau swyddogol sy'n cael eu cyflawni gan yr Awdurdod Cymwys o ran lles anifeiliaid wrth gael eu cludo

### Y cefndir

1. Rydyn ni wrthi'n gofyn am sylwadau ar newidiadau arfaethedig yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r rheolaethau swyddogol sy'n cael eu cyflawni gan yr Awdurdod Cymwys<sup>1</sup> o ran lles anifeiliaid wrth gael eu cludo.
2. Mae dulliau diogelu anifeiliaid wrth gael eu cludo o fewn Prydain Fawr, o Brydain Fawr i drydydd gwledydd ac ar ôl iddyn nhw gyrraedd o drydydd gwledydd, a'r rheolaethau swyddogol i wirio bod pobl yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, wedi'u nodi yng nghyfraith yr UE a ddargedwir fel a ganlyn:
  - Rheoliad yr UE 1/2005 a ddargedwir ynghylch diogelu anifeiliaid wrth eu cludo ac mewn gweithrediadau perthynol (Rheoliad 1/2005).
    - Ym Mhrydain Fawr mae'r Rheoliad a ddargedwir wedi'i roi ar waith gan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Lloegr) 2006, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Yr Alban) 2006
  - Rheoliad yr UE 2017/625 a ddargedwir ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod y gyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, y rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso (Rheoliad Rheolaethau Swyddogol – yr OCR).
3. Nod yr OCR yw darparu ymagwedd integredig ac unffurf at reolaethau swyddogol ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth gan rychwantu'r gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion ac er mwyn sicrhau ymagwedd gyson at reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol ar draws y sectorau hyn. Mae llawer o'r darpariaethau yn yr OCR eisoes yn gymwys i reolaethau

---

<sup>1</sup> Ym Mhrydain Fawr, yr Awdurdod Cymwys mewn perthynas â Lloegr yw'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru Gweinidogion Cymru ac mewn perthynas â'r Alban Gweinidogion yr Alban

swyddogol a gweithgareddau swyddogol a gyflawnir gan yr awdurdodau cymwys mewn perthynas â'r rheolau ar les mewn cludiant. Er hynny, cafodd cyflwyniad y darpariaethau penodol ar reolaethau swyddogol ar gyfer lles mewn cludiant a fwriadwyd i ddisodli'r darpariaethau ar reolaethau swyddogol yn Rheoliad 1/2005 ei ohirio'n wreiddiol gan Erthygl 154 o'r OCR tan 14 Rhagfyr 2022 fan bellaf. Erbyn hyn mae Erthygl 154(2) o'r fersiwn a ddargedwir o'r OCR yn darparu i'r darpariaethau hyn gael eu cychwyn gan reoliadau ar ddyddiad a ddewisir gan yr Awdurdod Priodol.<sup>2</sup>

## Y Newidiadau Arfaethedig

4. Rydym yn bwriadu cychwyn gweddill y darpariaethau yn Erthygl 21 ar reolaethau swyddogol mewn perthynas â'r rheolau lles mewn cludiant cyn gynted â phosibl, sef yn gynnar yn 2023 yn ymarferol. Rydyn ni o'r farn y bydd hyn yn sicrhau trefn gyson o reolaethau swyddogol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn lle'r rheolaethau deuol presennol ac na fydd yn arwain at unrhyw newidiadau yn natur y gwiriadau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheoliad 1/2005.
5. Yn ychwanegol, rydyn ni'n bwriadu gwneud rhai diwygiadau i Atodiad II o Reoleiddiad 1/2005, sydd ar hyn o bryd yn nodi rhwymedigaethau cludwyr, trefnwyr a cheidwaid mewn perthynas â logiau siwrnai. Mae'r gofyniad bod rhaid cael lùg siwrnai a gymeradwywyd yn gymwys i dda byw a cheffylau sydd heb eu cofrestru yn achos siwrneiau o fwy nag 8 awr rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd.
6. Rhaid i lùg siwrnai ymdrin â'r siwrnai gyfan y siwrnai a'i ddiben yw sicrhau bod y siwrnai wedi'i chynllunio'n briodol ymlaen llaw ac y bydd yn cydymffurfio â Rheoliad 1/2005. Ar hyn o bryd mae APHA yn gwirio pob lùg siwrnai ymlaen llaw i weld a yw'n cydymffurfio â'r gofynion gan eu cymeradwyo cyn i'r siwrnai ddechrau. Mae gwiriadau cydymffurfio hefyd yn cael eu cynnal ar lùg y siwrnai ddychwelyd pan fydd y siwrnai wedi'i chwblhau. Bydd y gwiriadau cydymffurfio hyn (cyn ac ar ôl y siwrnai) yn parhau. Rydyn ni'n bwriadu diweddarau Atodiad II i roi eglurder ar wiriadau cydymffurfio APHA ar logiau siwrnai, y broses ar gyfer cymeradwyo logiau siwrnai a rôl y trefnydd wrth baratoi a chwblhau logiau siwrnai.
7. Yn benodol, rydyn ni'n bwriadu egluro'r broses a rôl y trefnydd drwy sicrhau mai'r trefnydd sy'n gyfrifol am y canlynol:

---

<sup>2</sup> Yr awdurdod priodol at ddibenion y rheoliadau hyn fydd yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban.

- Paratoi a chyflwyno lòn y siwrnai i gael ei gymeradwyo o fewn 2 ddiwrnod gwaith cyn ymadael – rydyn ni'n bwriadu egluro'r diffiniad o 2 ddiwrnod gwaith
- Sicrhau bod ceidwaid nad ydyn nhw wedi'u lleoli ym Mhrydain Fawr yn llofnodi'r adrannau perthnasol o lòn y siwrnai.
- Sicrhau bod pob cludwr sy'n ymwneud â'r siwrnai yn cwblhau lòn y siwrnai yn ôl y galw.
- Sicrhau bod copi o'r lòn siwrnai wedi'i gwblhau'n gywir yn cael ei ddychwelyd i APHA o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r siwrnai gael ei chwblhau, at ddibenion archwilio
- Os copi papur yw lòn y siwrnai, yna mae'n rhaid i'r trefnydd gadw'r copi gwreiddiol am 3 blynedd.

8. Bydd angen gwneud diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth weithredu ddomestig ym mhob gwlad ym Mhrydain Fawr hefyd.<sup>3</sup>

## Y Camau Nesaf

9. Er ein bod ni o'r farn na fydd ein newidiadau arfaethedig yn cael fawr o effaith ar fusnesau, fe fydden ni'n gwerthfawrogi barn y rhanddeiliaid allweddol er mwyn inni liniaru unrhyw risgiau neu effeithiau anfwriadol.
10. Gan y bydd mesurau yn gymwys ledled Prydain Fawr, mae'r ymarfer ymgysylltu hwn yn cael ei gynnal ar ran Llywodraethau y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.
11. Rydym wedi nodi'r cwestiynau allweddol ym mhen draw'r ddolen isod i alluogi'r rhanddeiliaid i ymateb gydag unrhyw farn neu bryderon. Mae angen ymatebion erbyn 21 Hydref 2022

Diolch yn fawr ichi am eich amser – <https://consult.defra.gov.uk/animal-welfare-in-transport/985e7e5b>

---

<sup>3</sup> Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Lloegr) 2006, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Cymru) 2007, Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trafnidiaeth) (Yr Alban) 2006